Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymgynghoriad ar Newid Trefn Adnabod, Cofrestru a Rhoi Gwybod am Symudiadau Da Byw












**Dyddiad cyhoeddi: 30 Medi 2021**
**Camau i'w cymryd: Ymateb erbyn 2 Ionawr 2022**

OGL © Hawlfraint y Goron 2021
WG43523 ISBN digidol 978-1-80195-999-5 ISBN argraffu 978-1-80195-998-8

## Rhagair y Gweinidog



# Y Gweinidog Materion Gwledig a'r Gogledd, a'r Trefnydd

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn i chi am eich barn am ein cynllun i newid y drefn bresennol ar gyfer cofnodi symudiadau a chofrestru defaid, geifr, gwartheg a moch ac am y system electronig sydd gennym mewn golwg ar gyfer adnabod gwartheg (EID Gwartheg).  Bydd y newidiadau hyn yn digwydd law yn llaw â'r cynllun i estyn EIDCymru er mwyn gallu cofnodi symudiadau a chofrestru holl dda byw Cymru. Rwy am fod yn glir ynghylch sut y bydd cyflwyno'r newidiadau hyn yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'n diwydiant, yn lleihau'r baich rheoleiddio lle medrir ac yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg ddigidol i foderneiddio'r broses.

Wrth i broses ymadael â'r UE barhau, mae'n hanfodol bwysig sicrhau bod ein diwydiant yn parhau'n gryf ac yn gynaliadwy. Mae'r system electronig ar gyfer adnabod defaid wedi bod yn ei lle ers 2010 a bydd creu system EID i wartheg a chofnodi symudiadau'n electronig yn ei gwneud yn haws i ni eu holrhain ac yn gwneud busnesau'n fwy effeithiol.  Mae gallu olrhain da byw yn effeithiol yn hanfodol ar gyfer diwydiant ffermio llewyrchus, er mwyn delio â chlefydau a masnachu yn y dyfodol. Bydd yn rhoi cyfle pwysig hefyd i ddiwydiant cig coch Cymru fanteisio ar y data gwell er lles ei ffermwyr a'r gadwyn gyflenwi ehangach yma yng Nghymru.

Pan benderfynon ni ym mis Rhagfyr 2018 i estyn y cynllun EIDCymru llwyddianus i ddatblygu'r system a'r gwasanaeth cyntaf yng Nghymru fydd yn gallu olrhain mwy nag un rhywogaeth, roeddwn yn ffyddiog ein bod yn adeiladu ar system a gwasanaeth a oedd wedi ennill eu plwyf ac yn uchel iawn eu parch. Gan adeiladu ar sylfeini ein system cofnodi symudiadau defaid, geifr a cheirw, EIDCymru yw'r dewis naturiol ar gyfer cofrestru a chofnodi symudiadau gwartheg a moch yng Nghymru.

Rydyn ni wrth reswm yn cydweithio â holl weinyddiaethau'r DU i sicrhau ein bod yn creu ein systemau a'n gwasanaethau gyda'n gilydd.  Bydd sicrhau bod y trefniadau adrodd yn cael eu trosglwyddo'n effeithiol ac yn esmwyth i'n diwydiant o systemau presennol y DU i EIDCymru yn flaenoriaeth.

Rwy'n croesawu cyfraniad cyson ein Grŵp Cynghori ar Adnabod Da Byw (LIDAG). Dyma grŵp o gynrychiolwyr y diwydiant ac undebau'r ffermwyr sydd wedi hen brofi'i werth ac mae ei gyngor a'i arbenigedd wedi bod ac yn dal i fod yn werthfawr iawn i ni. Ar sail ein trafodaethau cynnar, gwn fod y diwydiant yn awyddus iawn i weld y newidiadau hyn ac rwyf am sicrhau ein bod yn gweithio gyda chi i sicrhau'r newidiadau uchelgeisiol hyn er mwyn gwireddu'r buddiannau niferus y gallai'r cynigion hyn esgor arnynt.

Byddaf yn croesawu'ch barn am y cynigion a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad hwn ac yn eich annog i'w chyflwyno.



Lesley Griffiths AS

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r Ymgynghoriad hwn yn gofyn ichi am eich barn am y newidiadau sy'n cael eu cynnig i'r prosesau presennol ar gyfer cofrestru a chofnodi symudiadau defaid, geifr, gwartheg a moch, ynghyd â chreu system electronig ar gyfer adnabod gwartheg. |
| **Sut in ymateb** | Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw **02/01/2022.**<br><br>Gallwch ymateb ar ffurflen ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/ymgyngoriadau<br><br>Fel arall, defnyddiwch y ffurflen wrth droed y ddogfen hon i ymateb. Anfonwch eich ymatebion atom naill ai drwy e-bost neu'r post: |
| **E-bost:** | AdnabodDaByw@llyw.cymru neu LivestockID@gov.wales |
| **Post** | Yr Ymgynghoriad ar Adnabod Da Byw<br>Adeiladau'r Goron<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill. |
| **Manylion Cysylltu** | Am ragor o wybodaeth:<br><br>Cyfeiriad post:<br>Yr Ymgynghoriad ar Adnabod Da Byw<br>Adeiladau'r Goron<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>Cyfeiriad e-bost:<br>AdnabodDaByw@llyw.cymru neu LivestockID@gov.wales |
| **Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg / This document is also available in English** | https://gov.wales/consultations |

## Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Diogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ
E-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Gwybodaeth Swyddfa'r Comisiynydd:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Adnabod a chofrestru da byw a rhoi gwybod am eu symudiadau

## Cyflwyniad

Yn ein barn ni, bydd system electronig ar gyfer rhoi gwybod am symudiadau da byw yn helpu'r diwydiant ffermio yng Nghymru trwy reolaeth well ar lefel y fferm ac yn ei gwneud hi'n bosibl cadw cofnodion electronig trwy dechnoleg well.

Mae defaid yn cael eu nodi'n electronig eisoes, yn bennaf trwy dagiau clust EID er bod bolysau a marciau pigwrn yn cael eu defnyddio hefyd.  Mae modd tagio geifr â system EID neu â thagiau confensiynol.  Mae moch yn cael eu hadnabod gyda naill ai slapfarc, tatŵ neu dag clust.  Ar hyn o bryd, mae gwartheg yn cael eu nodi â phar o dagiau clust cofensiynol (heb EID).

Yr un yw'r gofynion o ran rhoi gwybod am symudiadau defaid/geifr a gwartheg. Mae gan geidwaid dri diwrnod i roi gwybod i'r gronfa ddata ganolog berthnasol am symudiad a rhaid darparu dogfen bapur (trwydded symud ar gyfer defaid a phasbort ar gyfer gwartheg) i fynd gyda'r anifail ar ei daith.  Rhoddir gwybod eisoes am symudiadau moch yn electronig ond mae angen dogfen bapur arnyn nhw hefyd i fynd gyda nhw ar eu taith.

Ar hyn o bryd, rhoddir gwybod am symudiadau defaid, geifr a cheirw trwy EIDCymru, mae gwartheg yn cael eu cofrestru a chofnodir eu symudiadau trwy Wasanaeth Symudiadau Gwartheg Prydain (BCMS), a'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB Pork) sy'n cofnodi symudiadau moch trwy'r gwasanaeth eAML2. Yn 2018, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig fod Llywodraeth Cymru am ddatblygu system yng Nghymru fyddai'n gallu delio â mwy nag un rhywogaeth a bod symudiadau'r holl dda byw yn cael eu cofnodi ar EIDCymru.

Yn ogystal â bod gweinyddiaethau'r DU yn symud at ddatblygu systemau amlrywogaeth ac yn cynnig newid eu polisïau, mae rheoliadau'r UE yn gofyn hefyd am gyflwyno EID gwartheg gyda chyfnod pontio o 5 mlynedd ar ôl ei fabwysiadu. Er ein bod wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, rhaid inni barhau i gadw at rai o reoliadau'r UE er mwyn cael masnachu â'i wledydd. Bydd EID gwartheg yn golygu rhoi tag clust gyda sglodion electronig ar wartheg.  Bydd hyn yn gofyn am neilltuo lliw newydd ar gyfer tag EID gwartheg a system rifo newydd.

Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau hefyd o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 (y DU) i newid rheoliadau'r UE ar gofnodi symudiadau. Mae Cymru felly'n cael rhoi gwybod am symudiad ymlaen llaw, hynny yw cyn i'r anifail adael y daliad, gan roi'r potensial felly i wneud hynny yn ddi-bapur.

Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi holi'r diwydiant i gasglu barn ffermwyr, marchnadoedd, lladd-dai, canolfannau casglu, cymdeithasau bridiau ac eraill am yr EID gwartheg ac am newid y broses rhoi gwybod am symudiadau. Mae canlyniadau'r trafod hwnnw wedi llywio cyfeiriad y polisi hwn a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn.

Dyma'r newidiadau sy’n cael eu cynnig ac sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn:

- Rhoi gwybod am symudiad cyfan (gorfodol) – rhaid nodi CPH cychwyn y daith a CPH pen y daith wrth gofnodi symudiad pob anifail
- Cofnodi manylion taith pob symudiad ar gyfer pob rhywogaeth (gorfodol)
- Rhaid i Ganolfannau Cofnodi Canolog (CPRCs) roi gwybod am symudiadau ar yr un diwrnod
- Rhoi gwybod am symudiadau ymlaen llaw (gwirfoddol). Gellir rhoi gwybod am symudiadau da byw cyn i anifeiliaid adael y daliad (pob rhywogaeth)
- Cofrestru a rhoi gwybod am symudiadau yn ddi-bapur o wneud cyn y symudiad (gwirfoddol).
- Defnyddio cofrestr buches/diadell/cenfaint ar-lein ar gyfer pob rhywogaeth (gwirfoddol)
- Newid y broses symud anifeiliaid i sioeau a digwyddiadau (gwirfoddol) – datblygu proses cofnodi symudiadau cylchol ar gyfer pob rhywogaeth sy'n symud i ac o faes sioe
- Casglu barn ar y weledigaeth hirdymor ar gyfer gwella’r drefn adnabod ac olrhain moch

Hefyd, byddwn yn ei gwneud yn orfodol i ffermwyr gofrestru lloi newydd-anedig ar EID Gwartheg. Y newid mawr yw bod yn rhaid i un o'r ddau dag clust fod yn EID ac felly â microsglodyn electronig ynddo.  Bydd hyn yn golygu y bydd angen tag EID a thag confensiynol ar bob llo sy’n cael ei eni ar ôl dyddiad cychwyn EID gwartheg. Nid ydym yn disgwyl i hynny ddigwydd tan 2023.

Er mwyn gwella’r system i ni allu olrhain holl dda byw Cymru, byddwn am fynnu bod ffermwyr yn dilyn y rheolau CPH (rhif daliad) newydd a gyflwynwyd yn 2017 a defnyddio ‘Rheoli Fy CPH’. Mae dros ddwy ran o dair o geidwaid Cymru eisoes yn defnyddio Rheoli Fy CPH a'r rheolau CPH newydd.   Bydd RPW yn cysylltu ac yn cynorthwyo’r gweddill nad ydynt eto yn dilyn y rheolau newydd, fesul cam o fis Medi 2021.

Gwnaethon ni gomisiynu darparwr allanol i Asesu Effeithiau’r cynigion rydym wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn. Cawsom wybodaeth am effaith debygol y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig ar y diwydiant. Mae'r asesiad wedi nodi’r amcangyfrifon gorau o gost a budd y newidiadau a gynigir.  Bydd hyn yn ein helpu gyda’n Hasesiad Effaith Rheoleiddiol y byddwn yn ei gyhoeddi cyn cyflwyno newidiadau deddfwriaethol.

Esbonnir y newidiadau arfaethedig hyn ymhellach yn yr ymgynghoriad hwn.

## Beth yw’r sefyllfa ar hyn o bryd?

Rhaid rhoi tag clust swyddogol â rhif unigryw arno ar holl dda byw Cymru (ac eithrio moch) a rhaid cofnodi’u symudiadau a'u holrhain yn gywir drwy gydol eu bywydau. O fewn yr UE, rhaid i dagiau clust gydymffurfio â safonau technegol rhyngwladol, gan gynnwys safonau'r Sefydliad Safoni Rhyngwladol (ISO) ar gyfer codau adnabod.

Enw’r system yw’r gofynion Adnabod, Cofrestru a Symud (IRM) ac mae'n pennu'r cod adnabod anifeiliaid a ddefnyddir gan y wlad y daw’r anifail ohoni. Mae'r gofynion presennol ar gyfer adnabod da byw yng Nghymru wedi'u nodi yn Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007, Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015 a Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011. Mae’n ofyn cyfreithiol cydymffurfio â’r rheolau adnabod da byw ac mae'n rhan bwysig o’r ymdrech i atal, rheoli a dileu clefydau a diogelu iechyd y cyhoedd.

Mae’r dulliau adnabod da byw swyddogol presennol yn cynnwys defnyddio tagiau adnabod, bolws, marciau pigwrn, tatŵs a slapfaciau. Dim ond tagiau EID amledd isel (LF) a ganiateir ar hyn o bryd yn swyddogol yn yr UE, ac i hwyluso’r fasnach byddwn yn cadw at y gofyn hwn yng Nghymru. Mae **Tabl 1** isod yn dangos y gofynion presennol ar gyfer tagio pob rhywogaeth:

**Tabl 1 – Y gofynion presennol ar gyfer tagio pob rhywogaeth**

| Gwartheg | Geifr | Moch | Defaid |
|---|---|---|---|
| Prif Dag – Tag plastig melyn y gellir ei ddarllen o bell. Yn dangos logo’r goron, cod y wlad (UK) a’r rhif adnabod unigryw. Rhaid ei roi o fewn 36 awr ar ôl geni llo godro neu 20 niwrnod ar ôl geni llo mewn buches eidion. | Tagiau Dwbl (ar gyfer geifr sy’n cael eu cadw o dan amodau ffermio llai dwys, o fewn 9 mis ar ôl eu geni; neu o fewn 6 mis ar ôl eu geni, yn achos unrhyw anifail arall. Dau dag gweledol, yn dangos cod y wlad (UK neu GB) a’r rhif adnabod unigryw. | Pob mochyn dros 12 mis oed neu o dan 12 mis os ydyn nhw’n cael eu symud i’w lladd – tag ar y glust neu datŵ ar y ddwy ysgwydd. Rhaid dangos cod y wlad (UK) a nod cenfaint Iechyd Anifeiliaid. Rhaid wrth y llythrennau GB os yw’n cael ei allforio. | Dyfais EID lawn (ar ddefaid dros 12 mis oed neu sy’n cael eu cadw i fagu neu y bwriedir eu hallforio) – dau dag, un melyn electronig (EID) ac un gweledol (tatŵ neu farc pigwrn). Rhaid i’r tagiau ddangos cod y wlad (UK neu GB) a rhif adnabod unigryw. |
| Ail Dag – Plastig neu fetel. Yr un manylion â’r prif dag. Gall gynnwys gwybodaeth reoli hefyd a bod o faint neu steil wahanol. Yn dangos UK neu GB (ar gyfer allforion) a bod yn electronig (EID). **Rhaid** ei roi ar y glust arall i’r prif dag o fewn 20 niwrnod ar ôl geni’r llo. | Tag Lladd (ar fynnod o dan 12 mis oed ac y bwriedir eu lladd yn y DU – un batsh o dagiau lladd, yn dangos ‘UK’ a rhif y ddiadell. | Moch o dan 12 mis oed sy’n symud i ddaliad amaethyddol – marc paent dros dros ar gyfer symudiadau rhwng daliadau. | Tag Lladd Electronig (ar gyfer ŵyn o dan 12 mis oed ac y bwriedir eu lladd yn y DU) – un batsh o dagiau lladd electronig (EID), yn dangos ‘UK’ a rhif y ddiadell AC â microsglodyn electronig sydd â rhif unigolyn o fewn y tag. |
| Nid oes dyfais swyddogol arall. | Rhaid defnyddio tagiau electronig (EID) ar gyfer allforion. Gellir defnyddio tatŵ neu farciau pigwrn fel ail ddyfais adnabod. | Rhaid rhoi tag ar gyfer symudiadau i allforio. | Gellir defnyddio bolws EID neu farc pigwrn EID hefyd. |

**Rhaid rhoi dyfais adnabod ar bob anifail cyn iddo symud o’i ddaliad geni.**

Archebir tagiau da byw oddi wrth gyflenwr tagiau swyddogol. Mae pob cyflenwr tagiau wedi’i gysylltu â system TG sy’n cael ei rheoli gan y Llywodraeth ac yn rhannu codau unigol unigryw ar gyfer tagiau clust da byw swyddogol. Mae'r gronfa ddata ganolog hon yn sicrhau bod gweithgynhyrchwyr tagiau yn cael gwybod y rhif nesaf sydd ei angen yng nghyfres y ceidwad pan fydd yn archebu tagiau newydd. Yr enw ar y system hon ar hyn o bryd yw’r System Dyrannu Tagiau Clust (ETAS) ond bydd y Gwasanaeth Adnabod Unigryw ar gyfer Da Byw (LUIS) yn cymryd ei lle cyn hir. Bydd y system newydd yn parhau i weithredu yng Nghymru a Lloegr ac ni ddylai ceidwaid weld fawr o effaith o ganlyniad i'r newid.

**Canolfannau Cofnodi Canolog (CPRCs)**

Ar hyn o bryd, marchnadoedd, lladd-dai a chanolfannau casglu sy’n darparu gwasanaeth canolfannau cofnodi canolog (CPRCs) yng Nghymru ar gyfer ceidwaid

defaid a geifr. Rhaid i'r safleoedd hyn gael eu cymeradwyo gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA). Mae CPRCs yn darllen yr wybodaeth sydd ar ddyfeisiau electronig defaid a geifr unigol ar ran ceidwaid sy'n symud eu hanifeiliaid o’u daliadau i'r safleoedd hyn.
Lle mae angen adnabod anifeiliaid unigol, gall ceidwaid gofnodi symudiadau fesul batsh oddi ar y daliad (ac ar ddogfen symud) a defnyddio gwasanaethau CPRC cymeradwy. Bydd y CPRC yn darllen ac yn cofnodi'r manylion unigol pan fydd y defaid yn cyrraedd y safle.

## Pam newid?

### 1. Gadael yr UE

Mae datblygu system amlrywogaeth yng Nghymru ynghyd ag adnabod a chofnodi symudiadau’n electronig yn gyfle i gryfhau hunaniaeth Cymru a gwella ein henw da am safonau iechyd a lles anifeiliaid uchel.

Mae Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd (OIE) yn darparu canllawiau rhyngwladol ynghylch prif elfennau system adnabod ac olrhain anifeiliaid byw. Mae Cod Iechyd Anifeiliaid Tir yr OIE yn darparu safonau ar gyfer gwella iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd cyhoeddus milfeddygol ledled y byd. Mae cydymffurfio â'r safonau rhyngwladol hyn yn amod ym mhob cytundeb masnach â gwledydd yr UE a gwledydd y tu allan i'r UE.

Mae angen inni sicrhau bod y ddeddfwriaeth yng Nghymru sy'n gweithredu ac yn darparu pwerau gorfodi ar adnabod a chofrestru da byw fferm, yn parhau i fodloni safonau rhyngwladol nawr ein bod wedi gadael yr UE. Rhaid peidio â gadael i unrhyw beth amharu ar ein masnach â’r UE a gwledydd eraill.

Mae'r DU bellach yn cael ei gweld fel trydedd wlad gan yr UE ac mae rheolau masnach yn gofyn am newidiadau i drefn adnabod da byw'r DU er mwyn cael masnachu â’r UE. Mae hyn yn golygu bod angen i weinyddiaethau Prydain Fawr newid y cod gwlad ar dagiau gweledol o ‘UK’ i ‘GB’, hynny er mwyn cael allforio i'r UE. Mae mesurau pontio wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod allforion da byw yn parhau ond mae holl weinyddiaethau Prydain Fawr wedi cytuno i newid eu cod gwlad gweledol ar dagiau’u da byw o ‘UK’ i ‘GB’ pan ddaw’r broses o newid y gyfraith a systemau i fwcwl. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno yr un pryd â’r EID Gwartheg.

Bydd datblygu system amlrywogaeth yng Nghymru a gwella’r prosesau cofnodi da byw presennol, ynghyd â gweithredu EID gwartheg, yn golygu y bydd Cymru’n cael parhau i fasnachu â'r UE; ac mewn sefyllfa dda i lunio cytundebau masnachu â gwledydd y tu allan i'r UE yn y dyfodol.

### 2. Newidiadau yn rhannau eraill y DU

Mae Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwared ar eu gwasanaethau olrhain da byw presennol ac yn creu eu systemau a'u gwasanaethau amlrywogaeth newydd eu hunain, ac maent hefyd yn datblygu systemau EID gwartheg. Mae pob gweinyddiaeth yn cydnabod pwysigrwydd masnach drawsffiniol fewnol y DU a phwysigrwydd gallu trosglwyddo data’n rhwydd wrth symud da byw. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r holl weinyddiaethau i sicrhau bod ein systemau yn symud ymlaen gyda'i gilydd a bod trefniadau trosglwyddo gwybodaeth o'r

systemau gwartheg a moch presennol yn cael eu reoli'n effeithiol i sicrhau bod ansawdd uchel y prosesau olrhain yn parhau.

# Y ddeddfwriaeth bresennol

## Y newidiadau i'r drefn gofnodi ar gyfer pob rhywogaeth

Mae tri darn gwahanol o ddeddfwriaeth yn ymdrin â rheolau symud a chofrestru gwartheg, defaid, geifr a moch, yng Nghymru.  Rydym yn bwriadu crynhoi'r newidiadau a drafodir yn yr ymgynghoriad hwn ar gyfer pob rhywogaeth o fewn Offeryn Statudol newydd.  Bydd hyn yn debygol o ddigwydd yr un pryd â chychwyn yr EID Gwartheg.

## EID Gwartheg

Rydym yn cynnig bod pob llo sy'n cael ei eni, o ddyddiad penodol, yn cael ei dagio â thag EID gwartheg. Ni fydd hyn yn debygol o ddigwydd cyn 2023, pan fydd holl systemau olrhain gwartheg Prydain Fawr wedi'u hymgorffori'n llawn a'r ddeddfwriaeth yng Nghymru wedi'i diwygio. Rydym wedi bod yn ystyried cynigion i ail-dagio'r fuches gyfan â thagiau EID gwartheg, ond gallai hynny olygu gorfod newid rhifau'r gwartheg ac ar hyn o bryd ni fyddai rhai systemau olrhain yn y DU yn gallu dygymod â hynny. Wrth i'r system wella, efallai y gellid ailystyried yr opsiwn hwn a chynnal ymgynghoriad arno yn y dyfodol.

Bydd pob llo a enir ar ôl dyddiad cychwyn defnyddio'r EID gwartheg yn cael tag EID. Bydd y rhif ar sglodyn y tag EID yr un peth â'r rhif ar y tag neu'r pâr o dagiau a bydd yn ddyfais adnabod swyddogol.  Yr enw ar hyn yw 'Yr hyn a welwch yw'r hyn a gewch' (WYSIWYG). Penderfynir ar yr amserlen ar gyfer hyn yn dilyn yr ymgynghoriad hwn a chyhoeddir y canllawiau ymhell ymlaen llaw i sicrhau bod gan geidwaid ddigon o amser i gynllunio.

# Pa opsiynau ydyn ni'n ymgynghori arnyn nhw?

## Adran 1 – Rhoi gwybod am y symudiad cyfan (gorfodol)

Mae rhoi gwybod am symudiad cyfan yn golygu bod CPH cychwyn y daith a CPH pen y daith yn cael eu cofnodi ar adroddiad symud pob rhywogaeth.

Mae'r drefn bresennol ar gyfer cofnodi symudiadau defaid, geifr a moch eisoes yn gofyn am gofnod o'r symudiad cyfan, gyda CPH cychwyn y daith a CPH pen y daith yn cael eu cofnodi ar bob adroddiad symud. Ond, ar hyn o bryd, ar gyfer gwartheg, mae'r symudiad o'r daliad a'r symudiad i'r daliad yn cael eu cofnodi ar wahân. Dim ond am ei ran ef o'r symudiad y mae angen i geidwad ei gofnodi. Mae hyn yn golygu bod pob symudiad yn cael ei gofnodi fel symudiad o ddaliad cychwyn y daith ac fel symudiad i ddaliad pen y daith. Gallai hyn achosi bylchau olrhain os cofnodir symudiad yn hwyr neu os o gwbl. Mae hefyd yn bosibl i ddwy ran y symudiad gael eu cofnodi ddyddiau ar wahân, a gall hynny arwain at ddryswch yn y cofnod yn y gronfa ddata.

Er mwyn gallu olrhain symudiadau gwartheg yn well, rydym yn cynnig bod pob ceidwaid a CPRC (marchnad, lladd-dy a chanolfan cynnull/casglu) yn darparu CPHs cychwyn a phen y daith wrth gofnodi symudiadau pob anifail sy'n symud drwy eu safle. Bydd yn efelychu'r drefn bresennol ar gyfer symudiadau defaid a moch gan olygu bod y symudiad cyfan yn cael ei gofnodi yr un pryd. Mae'r drefn bresennol o ganiatáu tri diwrnod i'r ceidwad roi gwybod bod anifail wedi cyrraedd safle neu ei adael, yn golygu nad oes cofnod o'r symudiad ar unrhyw gronfa ddata am sawl diwrnod.

Mae cofnodi symudiadau cyfan yn golygu bod safleoedd cychwyn a phen taith yn cael eu nodi ym mhob adroddiad symud. Bydd yn rhaid i'r ceidwad y daliad gwreiddiol gofnodi holl fanylion y symudiad (gan gynnwys rhif adnabod yr anifail, safle cychwyn y daith, safle pen y daith a dyddiad y symudiad). Ar ôl i'r anifail gyrraedd pen y daith, bydd ceidwad/gweinyddwr y gyrchfan yn cadarnhau bod yr wybodaeth ar yr adroddiad symud yn gywir a bod y symudiad wedi digwydd. Bydd hyn, nid yn unig yn lleihau'r baich gweinyddol o gofnodi'r symudiad i'r safle, bydd yn sicrhau bod modd olrhain symudiad cyfan yr anifail. Mae hyn yn adlewyrchu'r broses cofnodi electronig gyfredol ar gyfer defaid, geifr a moch, a bydd prosesau cofnodi symudiadau pob rhywogaeth sy'n cael eu cynnig ar EIDCymru yn debyg iawn i'w gilydd.

| Cwestiynau'r Ymgynghoriad | |
|---|---|
| **1.1** | Beth yw'ch barn am gyflwyno trefn cofnodi symudiad cyfan ar gyfer gwartheg? |
| **1.2** | A fydd adegau pan na fydd modd cofnodi CPH pen y daith? Os bydd, beth allwch chi ei wneud i allu rhoi'r wybodaeth? |
| **1.3** | A oes gennych rywbeth arall i'w ddweud am hyn? |

## Adran 2 – Cofnodi manylion taith pob rhywogaeth (gorfodol)

Rhaid cofnodi manylion y daith a’r cludiant ar bob adroddiad symud ar gyfer pob rhywogaeth

Mae Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Trafnidiaeth) (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth benodol fynd gyda da byw wrth eu cludo, gan gynnwys o ble mae’r anifail yn dod, perchennog yr anifail, lle, dyddiad ac amser cychwyn y daith, a hyd disgwyliedig y daith.

Ar hyn o bryd cesglir yr wybodaeth ar ffurflen AML1 ar gyfer symudiadau defaid, ond ni chesglir manylion y cludwr na'r cludiant ar hyn o bryd fel rhan o broses cofnodi symudiadau gwartheg.  Mae ambell CPRC yn casglu'r data hyn ar y dogfennau sy'n cyd-deithio â'r anifeiliaid sy’n cyrraedd, ond nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei rhoi yn y gronfa ddata.

Os bydd achos o glefyd hysbysadwy, byddai cofnod o'r cludwyr a’r cludiant yn ddefnyddiol iawn ac yn dangos pa anifeiliaid sydd wedi rhannu’r un cludiant. Drwy hynny, gellir cael hyd i’r anifeiliaid hynny a'u cysylltiadau yn gyflymach, a gellir eu holrhain yn haws, gan helpu i arafu ac atal lledaeniad y clefyd.  O ganlyniad, bydd modd targedu mesurau rheoli’r clefyd yn well.  Cynigir bod yr wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu pan gaiff y symudiad ei gofnodi'n electronig:

- Enw’r cludwr
- Rhif cofrestru’r cerbyd sy’n cludo’r anifeilaid
- Dyddiad y symudiad
- Amser ymadael
- Hyd y daith
- CPH cychwyn y daith a CPH pen y daith

Bydd darparu'r wybodaeth hon yn cysoni’r gofynion cyfredol o ran cipio data ar gyfer pob rhywogaeth yn EIDCymru:

Bydd EIDCymru yn gallu storio'r wybodaeth hon felly os yw'r cerbyd neu'r cludwr yn cael ei ddefnyddio'n aml gan y ceidwad, caiff yr wybodaeth ei llenwi’n awtomatig gan arbed amser.

| **Cwestiynau’r Ymgynghoriad** | |
|---|---|
| **2.1** | Ydych chi o blaid casglu manylion y cludwr a’r cludiant ar gyfer symudiad pob rhywogaeth?  Rhowch eich rhesymau am eich barn. |
| **2.2** | A fydd adegau pan na fydd modd rhoi holl fanylion y daith? Rhowch enghreifftiau. |
| **2.3** | A oes gennych rywbeth arall i’w ddweud am hyn? |

## Adran 3 – Gorfodi Canolfannau Cofnodi Canolog (CPRC) i newid eu hamserau cofnodi

Ar hyn o bryd, mae gan CPRCs (marchnadoedd, lladd-dai a chanolfannau cynnull/casglu) hyd at 3 diwrnod i roi gwybod am symudiadau gwartheg, hyd at 48 awr i roi gwybod i'r gronfa ddata ganolog am symudiadau defaid a geifr, ac yn achos moch, rhaid rhoi gwybod am y symudiad o'r farchnad ar ddiwrnod y symudiad.

Hoffem efelchu'r broses un diwrnod ar gyfer symudiadau moch, ar gyfer symudiadau pob rhywogaeth sy'n mynd trwy CPRC.

Yn ogystal â bod yn fantais i geidwaid sy'n defnyddio'r cyfleuster cofrestru daliadau ar-lein ac sy'n cadarnhau symudiadau i'w daliad gan ddefnyddio eu cyfrif EIDCymru, bydd y newid hwn yn hanfodol hefyd er mwyn gallu olrhain mewn amser real. Gyda'r rhan fwyaf o symudiadau da byw yn cael eu cofnodi gan CPRCs, byddai hyn yn gwella'r drefn olrhain pe bai achos o glefyd.

| Cwestiynau'r Ymgynghoriad | |
|---|---|
| **3.1** | Ydych chi'n cytuno â'r uchelgais i orfodi CPRC i gofnodi symudiadau yr un diwrnod? Rhowch eich rhesymau am hyn? |
| **3.2** | A oes gennych rywbeth arall i'w ddweud am hyn? |

## Adran 4 – Rhoi gwybod am symudiadau pob rhywogaeth ymlaen llaw (gwirfoddol)

Mae rhoi gwybod am symudiadau ymlaen llaw yn golygu rhoi gwybod am symudiad cyn i anifail adael y daliad yn lle hyd at 3 niwrnod ar ôl y symudiad

Mae symudiadau pob rhywogaeth yng Nghymru'n cael eu cofnodi'n wahanol:

- Nid yw ceidwaid gwartheg ar hyn o bryd yn cael rhoi gwybod ymlaen llaw am symudiadau eu gwartheg i BCMS. Er hynny, ceir elfen o gofnodi cyn symud gan fod yn rhaid i geidwad cychwyn y daith lofnodi a dyddio label cod bar a'i roi ar y pasbort, cyn i'r anifail symud.  Yna, mae gofyn i'r ceidwad roi gwybod am y symudiad (i ac o'r daliad) o fewn 3 diwrnod ar ôl y symudiad.

- Mae defaid a geifr eisoes yn cael eu cofnodi cyn symud gan fod gofyn i'r ceidwaid gofnodi'r symudiad cyn i'r anifeiliaid adael y daliad. Gwneir hyn ar hyn o bryd ar ffurflen AML1 bapur neu electronig ar EIDCymru. Fodd bynnag, o dan Reoliadau presennol y Gorchymyn Cludo Lles Anifeiliaid (WATO), rhaid i gopi papur neu brint o ffurflen AML1 fynd gyda'r defaid neu'r geifr i ben eu taith (os yw'r symudiad yn ymwneud â gweithgaredd economaidd).

- Rhoddir gwybod am symudiadau moch ymlaen llaw yn electronig trwy'r system eAML2 a rhaid i fersiwn brint o ddogfen symud/gryno'r cludwr fynd gyda'r moch ar eu taith.

Bydd y gwelliannau arfaethedig i EIDCymru yn golygu y caiff ceidwaid ddewis rhoi gwybod ymlaen llaw am symudiadau eu **holl** dda byw cyn i'r anifeiliaid adael daliad cychwyn y daith a chyn iddynt gyrraedd daliad pen y daith. Bydd modd golygu'r adroddiadau cyn symud hyn a'u canslo neu eu newid tan y bydd yr anifeiliaid yn gadael y daliad. O'i roi'n syml, gellir cofnodi'r symudiad o'r daliad mewn amser real *yn hytrach* nag ar ôl iddo ddigwydd.

Bydd cofnod cyn symud yn caniatáu i gyrchfan/derbynnydd yr anifeiliaid, boed yn CPRC neu'n geidwad, weld pa anifeiliaid sy'n cael eu symud i'w ddaliad cyn iddynt gyrraedd. Bydd hefyd yn caniatáu i'r gyrchfan gadarnhau'r symudiad yn hawdd ar EIDCymru pan fydd yr anifeiliaid yn cyrraedd, gan gofnodi'r symudiad 'i'r daliad' yn hawdd. Bydd hyn yn efelychu'r broses 'Derbyn y Symudiad' bresennol ar gyfer defaid ar EIDCymru.  Bydd hefyd yn caniatáu i fanylion y cludiant gael eu cofnodi'n electronig gan fodloni gofynion WATO.


Bydd adroddiadau cyn symud, ynghyd â'r newidiadau i'r rheoliadau da byw presennol a WATO, o bosibl yn golygu y gallwn gael gwared ar basbortau papur ar gyfer gwartheg a'r ffurflen AML1 bapur ar gyfer defaid rywdro yn y dyfodol, hynny am y bydd modd cadarnhau cymhwysedd yr anifail a'i iechyd cyn iddo adael y daliad.

Mae **Tablau 2 a 3** isod yn dangos y newidiadau sy'n cael eu cynnig o ran rhoi gwybod am symudiadau

**Tabl 2 – Adroddiadau dibapur gan geidwaid o'u cymharu â'r broses ar hyn o bryd**

| | Adroddiadau papur presennol | Adroddiad cyn symud ar EIDCymru (yn dilyn newid y ddeddf) |
|---|---|---|
| **Gwartheg** | Pasbort papur i gyd-deithio â'r anifail | Dim angen pasbort papur – cofnod electronig yn ei le |
| **Defaid a Geifr** | Ffurflen AML1 i gyd-deithio â'r anifail | Dim angen AML1 bapur - adroddiad symud electronig yn ei lle |
| **Moch** | Dogen symud bapur i gyd-deithio â'r anifail | Dim angen dogfen bapur – adroddiad symud electronig yn ei lle |

**Tabl 3 – Siart llif ar gyfer adroddiadau cyn symud electronig**




Dyma fanteision adroddiadau cyn symud:

- Bydd yn cymryd lle'r prosesau llaw presennol (ffurflen AML1 a phasbort bapur)
- Bydd ceidwad pen y daith/CPRC yn gallu gweld pa anifeiliaid sy'n dod i'w ddaliad a chadarnhau'r symudiad ar EIDCymru
- Gall fod yn fodd i gael gwared ar ddogfennau papur
- Bydd modd olrhain y symudiad wrth iddo ddigwydd gan y bydd y daith gyfan yn cael ei chofnodi mewn amser real

- Gallai cydymffurfio â Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Trafnidiaeth) (Cymru) 2007 a datganiadau Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd fod yn rhan o'r adroddiad cyn symud gan leihau'r baich papur sydd ei angen i gyd-deithio â'r anifail.
- Bydd yn cryfhau'r mesurau i ddiogelu defnyddwyr ac atal clefydau gan y bydd y system yn gweld a oes cyfyngiadau ar anifail neu ddaliad.
- Bydd modd golygu'r adroddiad symud os oes gwall wedi'i wneud.
- Trwy roi gwybod am symudiad yn electronig ymlaen llaw, bydd hynny'n hwyluso prynu doeth.


Yn ein barn ni, mae adroddiadau cyn symud yn allweddol i ni allu olrhain symudiadau mewn amser go iawn. Y bwriad yw eu cyflwyno'n wirfoddol i ddechrau, gyda'r nod o'u gwneud yn orfodol rywdro yn y dyfodol.

| **Cwestiynau'r Ymgynghoriad** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **4.1** | A oes adegau pan fydd dal angen y pasbort papur presennol? | | | |
| **4.2** | A oes adegau pan fydd dal angen yr AML1 bapur bresennol? | | | |
| **4.3** | A fyddech chi'n croesawu mwy o wasanaethau digidol? Beth sydd ei angen arnoch ichi fedru gwneud hyn? E.e. hyfforddiant. | | | |
| **4.4.** | Sut ydych chi'n rhoi gwybod am symudiadau ar hyn o bryd a pham? | | | |
| | Gwartheg | Ar-lein ☐ | Papur ☐ | Ffôn ☐ |
| | Moch | Ar-lein ☐ | Testun ☐ | Ffôn ☐ |
| | Defaid | Ar-lein ☐ | Papur ☐ | |
| | Geifr | Ar-lein ☐ | Papur ☐ | |
| | Ceirw | Ar-lein ☐ | Papur ☐ | |
| | Pam? | | | |
| **4.5** | A oes gennych rywbeth arall i'w ddweud am hyn? | | | |

## Adran 5 - Rhoi gwybod am symudiadau pob rhywogaeth yn electronig (gwirfoddol)

Ar hyn o bryd, defnyddir tair system a gwasanaeth gwahanol i gofnodi symudiadau a chofrestru genedigaethau a marwolaethau (gwartheg yn unig) ac maen nhw'n defnyddio'r sianeli canlynol:

**Tabl 4 – Y dulliau ar gyfer rhoi gwybod am symudiadau da byw**




Yn y dyfodol, bydd modd rhoi gwybod am symudiadau pob rhywogaeth a chofrestru genedigaethau a marwolaethau gwartheg i gyd ar-lein gan ddefnyddio gwasanaeth EIDCymru gyda ffôn clyfar, llechen neu gyfrifiadur personol. Mae llinell ffôn awtomataidd hefyd yn cael ei datblygu ond dim ond ar gyfer niferoedd llai o anifeiliaid yr argymhellir hon oherwydd problemau cywirdeb.

### Symudiadau gwartheg

Mae data'r BCMS yn dangos fod tua 97.7% o'r rheini sy'n cysylltu â nhw (**tabl 5**) eisoes yn gwneud hynny'n electronig, felly mae'n ymddangos yn rhesymol annog ceidwaid i gyflwyno rhagor o'u hadroddiadau ar gyfer pob rhywogaeth yn electronig. Byddai hynny wrth reswm yn golygu cofnodi symudiadau'n gynt.

**Tabl 5 – Cysylltiadau electronig am wartheg**

| Cysylltiadau Electronig | % |
|---|---|
| Genedigaethau | 96.9% |
| Marwolaethau | 93.6% |
| Symudiadau | 98.5% |
| **Cyfanswm** | 97.7% |

Data: welsh Transactions 2020

Gan fod cymaint o geidwaid gwartheg yn defnyddio'r system electronig ar hyn o bryd ac i wneud y drefn yn gywirach, rydym am ddileu'r opsiwn presennol ar gyfer cofrestru gwartheg (genedigaethau) a chofnodi symudiadau yn ysgrifenedig drwy'r post.

Mae cofrestru a rhoi gwybod am symudiadau ar bapur yn ei gwneud yn anoddach olrhain gwartheg. Gall bylchau yn hanes y symudiad ymddangos wrth i'r copi papur wneud ei ffordd drwy'r system bost. Mae hefyd yn golygu nad yw'r ceidwad yn elwa ar y baich gweinyddol ysafnach a ddaw yn sgil defnyddio'r system electronig. Mae rhoi gwybod am enedigaethau, symudiadau a marwolaethau ar-lein yn golygu bod yr wybodaeth yn cael mynd ar y gronfa ddata ar unwaith, gellir osgoi'r camgymeriadau a geir wrth gyflwyno gwybodaeth o ddogfen bapur ac mae'r gost yn is i unigolion a Llywodraeth Cymru.

### Symudiadau defaid/geifr

Rydym yn hyderus na fydd troi at ddefnyddio adroddiadau electronig yn cael fawr o effaith ar geidwaid gwartheg a moch, gan fod y rhan fwyaf ohonynt eisoes yn defnyddio systemau electronig ond bydd yr effaith ar ddiwydiant defaid a geifr Cymru yn fwy gan fod y rhan fwyaf yn defnyddio'r ffurflen AML1 bapur.

Mae'r broses bresennol ar gyfer symud defaid a geifr yn gofyn am drwydded defaid AML1 i gyd-deithio gyda'r defaid i ben eu taith. Gall fod yn gopi wedi'i ragbrintio o'r ffurflen AML1, neu fersiwn wedi'i phrintio gafodd ei llenwi'n electronig ar EIDCymru. Rheoliadau WATO sy'n gofyn am hyn (os yw'r symudiad yn ymwneud â gweithgaredd economaidd), a chredwn ei fod yn rhwystr i gael mwy o ffermwyr defaid i roi gwybod am eu symudiadau ar-lein.

Rydym yn cynnig diwygio'r deddfwriaeth er mwyn cael cofnodi symudiadau'n electronig, cyn i'r anifail adael y daliad. Bydd hynny'n golygu na fydd angen copi papur na fersiwn wedi'i rhagbrintio o'r ffurflen AML1 mwyach. Byddai hyn yn efelychu'r drefn cyn symud bresennol ar gyfer moch.

Mae modd eisoes cofnodi symudiadau'n electronig ar EIDCymru ond nes y caiff y ddeddfwriaeth ei diwygio, ni fydd diwydiant defaid Cymru'n cael manteisio'n llawn ar botensial gwasanaethau EIDCymru.

### Cofrestru ar-lein

Mae'n ofyn ar hyn o bryd ar i bob ceidwad da byw gadw cofrestr ar wahân ar gyfer pob rhywogaeth o dda byw sydd ar ei ddaliad naill ai ar bapur neu ar ffurf electronig. Mae angen i geidwaid hefyd roi gwybod am symudiadau a genedigaethau a marwolaethau (gwartheg) i'r gwasanaeth perthnasol. Mae hyn yn golygu dyblu'r gwaith cofnodi gwybodaeth gofrestru a symud gan ychwanegu at faich y ceidwad.

Bydd datblygu EIDCymru yn caniatáu i geidwaid ddefnyddio eu cyfrif ar-lein fel cofrestr diadell, buches neu ddaliad electronig i gofnodi symudiadau, genedigaethau a marwolaethau. Os bydd ceidwad yn dewis defnyddio ei gyfrif fel cofrestr electronig, bydd y data a gofnodir am enedigaethau, marwolaethau a symudiadau yn EIDCymru yn cael eu trosglwyddo'n awtomatig i gofrestr ar-lein y ceidwaid gan olygu na fydd angen cofrestr bapur ar wahân.

Dyma fanteision hyn:

- Lleihau baich cofnodi'r ceidwaid.
- Cofnodi'n gywirach.
- Defnyddio llai o bapur.

Mater gwirfoddol fydd cadw cofrestr ar-lein o hyd a chaiff ceidwaid barhau i gadw'r gofrestr bresennol os dyna'u dewis. Os yw'r ceidwad yn defnyddio pecyn meddalwedd cydnabyddedig sy'n rhoi gwybod yn awtomatig i EIDCymru, BCMS neu eAML2 ar hyn o bryd, gall barhau i ddefnyddio hwnnw fel cofrestr. Y ceidwad fydd yn gyfrifol am gywirdeb y gofrestr ar-lein o hyd, hyd yn oed os mai gweithiwr, asiant neu CPRC sy'n lanlwytho'r wybodaeth. Rhaid cadw at amserlenni llenwi'r gofrestr o hyd os defnyddir fersiwn electronig, hynny yw rhaid rhoi gwybod am symudiadau naill ai'n electronig neu dros y ffôn o fewn y terfyn presennol o 36 awr.

Mae **Tabl 6** yn dangos y gofynion cofnodi fydd yn parhau fel y maent o dan y drefn bresennol a'r drefn gofrestru arfaethedig.

**Tabl 6 – Gofynion cofrestru ar ddaliadau**

| | | Ar gofrestr bresennol y Daliad | Rhaid Cofnodi o fewn | Cofrestr arfaethedig y Daliad |
|---|---|---|---|---|
| **Genedigaethau** | **Gwartheg** | 7 niwrnod – Godro<br>30 niwrnod – Bîff | 27 diwrnod | 7 niwrnod – Godro<br>27 diwrnod – Bîff |
| | **Defaid a Geifr** | 9 mis | | 9 mis |
| | **Moch** | | | |
| **Symudiadau** | **Gwartheg** | 36 awr | 3 niwrnod | 36 awr |
| | **Defaid a Geifr** | 36 awr<br>(neu 48 awr o'u symud trwy CPRC) | | |
| | **Moch** | 36 awr | Cyn symud gan geidwad cychwyn y daith<br>O fewn 3 niwrnod gan geidwad pen y daith | |
| **Marwolaethau** | **Gwartheg** | 7 niwrnod | 7 niwrnod | 7 niwrnod |
| | **Defaid a Geifr** | 36 awr | | 36 awr |
| | **Moch** | | | |

Ar hyn o bryd, mae bwlch o 3 niwrnod rhwng y gofyn i gofrestru genedigaeth llo o fewn 27 niwrnod ar BCMS a'r gofyn i gofnodi genedigaeth ar gofrestr y fuches o fewn 30 niwrnod. Rydyn ni'n cynnig cwtogi'r gofyn i gofrestru genedigaeth lloi eidion ar gofrestr y fuches i 27 niwrnod. Bydd y newid hwn yn effeithio ar bob cofrestr, boed bapur neu electronig.

| Cwestiynau'r Ymgynghoriad | |
|---|---|
| **5.1** | A fyddech chi' n ystyried defnyddio EIDCymru fel cofrestr electronig yn lle'ch cofrestr buches/diadell bapur? Beth yw'ch rhesymau am hyn? |
| **5.2** | Ydych chi'n cytuno â chyflwyno adroddiadau di-bapur ar gyfer pob math o dda byw? Beth yw'ch rhesymau am eich barn? |
| **5.3** | A oes rhesymau pam y byddech am barhau i gofrestru genedigaethau a marwolaethau a chofnodi symudiadau ar bapur? |
| **5.4** | Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gwtogi'r amser i roi gwybod am enedigaethau lloi bîff i 27 niwrnod? Beth yw'ch rhesymau? |
| **5.5** | A oes gennych rywbeth arall i'w ddweud am hyn? |

## Adran 6 – Newidiadau i’r drefn symud anifeiliaid i sioeau a digwyddiadau (gwirfoddol)

| Datblygu proses gylchol ar gyfer cofnodi symudiadau pob rhywogaeth i ac o faes sioe |
| --- |


Ar hyn o bryd, mae gofyn i swyddogion sioeau/digwyddiadau roi gwybod am y defaid, geifr a gwartheg sy’n cyrraedd maes y sioe ac sy’n cael eu symud oddi arno i EIDCymru a/neu BCMS, o fewn 3 diwrnod i ddyddiad y symudiad. Cyfrifoldeb yr arddangoswyr yw rhoi gwybod i eAML2 am symudiadau moch.

Mae'r broses yn gofyn i’r ceidwad roi gwybod am symudiadau o’r fferm i’r sioe ac yna'r daith yn ôl i'r daliad (y symudiad i’r fferm). Mae angen rhoi gwybod am bob symudiad o fewn tri diwrnod ar ôl i'r symudiad ddigwydd. Fodd bynnag, os bydd sioe'n para 3 diwrnod neu fwy, bydd gofyn cofnodi’r symudiadau ar wahân, oherwydd y gofyn i roi gwybod o fewn 3 niwrnod. Rhaid i'r sioe hefyd gadw cofnod o'r holl anifeiliaid a cherbydau da byw sy’n dod i faes y sioe, fel y gellir eu tracio os bydd clefyd.

Hoffem symleiddio'r broses hon er mwyn medru cofnodi symudiadau defaid, geifr, gwartheg a moch mewn cysylltiad â sioeau yn electronig gan fod symudiadau i sioeau bron bob amser yn gylchol (o fferm i'r sioe ac yna'n ôl i'r un fferm). Dangosir y broses a gynigir ar gyfer sioeau yn **Nhabl 7** isod:

**Tabl 7 – Y broses symud i sioeau**

- Bydd y ceidwad yn rhoi gwybod i EIDCymru am y symudiad cyfan i’r sioe cyn i’r anifail adael y daliad.
- Bydd swyddogion y sioe yn cadarnhau ar EIDCymru bod yr anifeiliaid wedi bod yn y sioe o fewn 3 niwrnod iddynt gyrraedd.
- Bydd y ceidwad yn ‘Derbyn Symudiad’ ar EIDCymru bod yr anifeiliaid wedi dod yn ôl i’r daliad o fewn 3 niwrnod wedi iddynt gyrraedd y daliad.



Ar gyfer anifeiliaid sy'n cael eu gwerthu mewn sioeau neu sydd ddim yn dychwelyd i CPH cychwyn y daith, gellir newid manylion y CPH yng ngham 3 uchod (y broses Derbyn Symudiad).

Bydd yr amser cofnodi yn cael ei gwtogi i 36 awr os yw'r ceidwad a/neu'r sioe yn defnyddio cofrestr ar y daliad ar-lein ar EIDCymru.

| **Cwestiynau'r Ymgynghoriad** | |
|---|---|
| **6.1** | Beth yw'ch barn am ein cynnig i ganiatáu i arddangoswyr mewn sioeau greu symudiadau cylchol? |
| **6.2** | A oes gennych rywbeth arall i'w ddweud am hyn? |

## Adran 7 – Y newidiadau a gynigir ar gyfer adnabod ac olrhain moch

Mae'n hanfodol gallu olrhain moch, a phob math arall o dda byw, er mwyn gallu amddiffyn iechyd pobl ac anifeiliaid. Ar hyn o bryd, gellir marcio moch yn barhaol â thag clust neu datŵ. Gellir rhoi'r tatŵ ar y glust neu fel slapfarc ar y ddwy ysgwydd. Gellir rhoi marc dros dro ar foch o dan 12 mis oed sy'n cael eu symud o fferm i fferm, cyn belled â'i fod yn para tan eu bod yn cyrraedd pen eu taith. Gall y marc dros dro nodi daliad cychwyn y daith neu'r ddogfen symud sy'n teithio gyda'r moch.

Cyn gadael y daliad, rhaid rhoi marc parhaol ar bob mochyn dros 12 mis oed sy'n symud o fferm i fferm gyda marc swyddogol y daliad ar dag clust neu datŵ/slapfarc.

Pan gaiff ei symud i'r mannau canlynol, mae angen rhoi marc cenfaint y moch sy'n cynnwys rhif adnabod unigryw. Felly hefyd wrth dagio gwartheg a defaid dros 12 mis oed:

- sioe/arddangosfa;
- at ddibenion bridio (gan ddychwelyd i'r daliad gwreiddiol);
- i ganolfan semen moch; neu
- ar gyfer eu hallforio.

Mae cyfyngiadau ar ein gallu i olrhain moch gan fod y rhan fwyaf o'r moch yn cael eu symud fel batsh ac ychydig iawn sydd â rhif adnabod unigryw ers eu geni. Nid yw'r data ar nifer y daliadau a nifer y moch ar y daliadau hynny'n gywir ar hyn o bryd, gan fod y data olrhain moch a gedwir yn seiliedig ar ddaliadau moch cofrestredig a symudiadau moch sydd wedi'u cofnodi. Os bydd achos o glefyd, bydd yn anodd iawn gwybod yn union ble, a faint o foch sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Wrth ddatblygu EIDCymru ar gyfer symudiadau moch, rydym yn bwriadu cynnwys:

- Y gofyn i bob daliad sy'n cadw moch gofrestru bob blwyddyn
- Stocrestr flynyddol o'r holl foch ar y daliadau hynny ar adeg benodol

Mae stocrestr o'r holl ddefaid a geifr yng Nghymru eisoes yn cael ei chynnal yn flynyddol, a gellid estyn hyn i gynnwys moch a daliadau moch hefyd. Dyma welliannau eraill i'r gallu i olrhain moch sydd dan ystyriaeth:

- Tagio moch â dyfais electronig
- Marc adnabod parhaol, yn cynnwys marc swyddogol y cenfaint a'r rhif adnabod unigryw.

| Cwestiynau'r Ymgynghoriad | |
|---|---|
| 7.1 | Beth yw'ch barn am ein huchelgais i gofrestru daliadau bob blwyddyn a chynnal stocrestr flynyddol o'r moch, a gwneud hynny'n orfodol? |
| 7.2 | Beth yw'ch barn am roi tagiau electronig ar foch pan fyddant yn gadael eu daliad geni? Oes angen ei wneud yn orfodol ar gyfer stoc fagu (hesbinnod, hychod a baeddod)? |
| 7.3 | Beth yw manteision neu rwystrau posibl rhoi marciau adnabod ar foch, gan gynnwys marc y cenfaint a'r rhif adnabod unigryw. |
| 7.4. | A oes gennych rywbeth arall i'w ddweud am hyn? |

## Diweddariadau eraill

Bydd estyn y gwasanaeth EIDCymru yn cynnwys cysylltu â systemau eraill Llywodraeth Cymru.  Mae hefyd yn caniatáu rhai gwelliannau angenrheidiol i'r newidiadau arfaethedig i'r drefn cofnodi symudiadau a chyflwyno EID gwartheg.  Ni fyddwn yn ymgynghori ar y newidiadau hyn ac fe'u cynhwysir er gwybodaeth.

### Rhaid defnyddiuo system Rheoli Fy CPH RWP Ar-lein

Rhan annatod o broses gwella'r gallu i olrhain yw'r gallu i gofnodi lle mae'r anifeiliaid bob amser.  Rhaid bod gan yr holl dir a ddefnyddir ar gyfer da byw Rif CPH (rhif adnabod daliad) fydd wedi'i roi gan Taliadau Gwledig Cymru (RPW). Mae'r rhif hwn yn gyfeirnod daearyddol unigryw ar gyfer y fferm neu'r grŵp o barseli tir.  Lansiwyd prosiect Rheoli Fy CPH yn 2017 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus[1] gan gyflwyno rheolau symlach newydd i geidwaid sy'n defnyddio Rheoli Fy CPH, system fapio RPW Ar-lein.

Mae RPW wedi bod yn cysylltu â cheidwaid i'w hannog i droi at y system Rheoli Fy CPH. Er mwyn i'r gwelliannau a nodir yn yr ymgynghoriad hwn weithio'n effeithiol, ac er mwyn sicrhau'r manteision llawn o ran olrhain, dylai pob ceidwad d dilyn y rheolau CPH newydd cyn gynted ag y daw'r gofynion cofnodi newydd a nodir yn yr ymgynghoriad hwn i rym.  Bydd hyn yn golygu y bydd gofyn i geidwaid fapio'r holl dir y maent yn ei ddefnyddio ar gyfer da byw ar Reoli Fy CPH a dilyn y rheolau newydd yn **nhabl 8** drosodd.

[1] https://gov.wales/holding-identifiers-and-associated-livestock-movements

**Tabl 8 – Rheolau Rheoli fy CPH**

| | Rheol Rheoli Fy CPH | Y rheol cyn 2017 |
|---|---|---|
| 1 | Y rheol 10 milltir ar gyfer symud pob math o dda byw.<br><br>Hynny'n golygu bod ceidwaid yn cael uno'u CPHau o fewn radiws o 10 milltir yn un CPH. Felly dim ond angen cofnodi symudiadau i CPH gwahanol neu i dir dros 10 milltir i ffwrdd. | Angen rhoi gwybod am symudiadau o fwy na 5 milltir i CPH gwahanol.<br><br>Rhaid rhoi gwybod am bob symudiad gwartheg i CPH gwahanol, waeth beth yw'r pellter.. |
| 1a | Gellir uno caeau/ffermydd sy'n rhychwantu'r ffin yn un CPH. | Roedd caeau neu ffermydd oedd yn rhychwangu ffin Cymru/Lloegr yn gorfod cael CPHau gwahanol ac roedd rhaid rhoi gwybod am symudiadau rhyngddynt. |
| 2 | Creu Cysylltiadau Tir Dros Dro (TLA) ar gyfer tir ar rent tymor byr o fewn 10 milltir i'r CPH y gellir ei ychwanegu at y CPH am lai na 364 diwrnod (gall ailadrodd). | Roedd Awdurdodau Unig Feddiannaeth (SOAs) a Chytundebau Rheoli Cysylltiadau Tir Dros Dro (ILAM) yn caniatáu trefniadau tebyg ond nid oeddent yn rhoi digon o wybodaeth am leoliad y tir.<br><br>Daeth y rhain i gyd i ben yn 2019. |
| 3 | Cyflwyno proses o tCPHau er mwyn i'r ceidwad allu meddiannu tir am lai na 364 diwrnod o unrhyw bellter. Bydd angen rhoi gwybod am symudiadau o'r prif CPH i'r tCPH. | Ddim yn berthnasol |
| 4 | Cofrestru ar Rheoli Fy CPH a nodi'r parseli tir sy'n cael eu defnyddio ar gyfer da byw. | System fapio hanesyddol heb wybodaeth ar lefel cae. |

## Mewnforio ac Allforio Da Byw

Pan fydd da byw yn cael eu mewnforio i Brydain Fawr, rhaid llenwi ffurflen ar y system Mewnforio Cynnyrch, Anifeiliaid, Bwyd a Phorthiant (IPAFFS) a rhaid cofnodi da byw sy’n cael eu hallforio ar y Dystysgrif Iechyd Allforio (EHC) Ar-lein. Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion sy’n gyfrifol am y ddwy system.

Nid yw'r data da byw a gesglir am fewnforion ac allforion yn cael eu trosglwyddo ar hyn o bryd i'n cronfeydd data symudiadau. Mae ceidwaid felly’n gorfod bwydo data mewn dau le ar wahân.

Ar hyn o bryd mae rhai bylchau sylweddol yn yr wybodaeth sydd ei hangen arnom a byddwn yn parhau i weithio gydag APHA i sicrhau bod yr holl ddata sy'n ymwneud â mewnforio ac allforio da byw yng Nghymru yn cael eu cofnodi ar EIDCymru.

## Y newidiadau sydd eu hangen i gyflwyno EID gwartheg

Mae sawl ffordd o gyflwyno EID gwartheg. Cytunwyd ar rai agweddau ar lefel y DU i sicrhau cysondeb er mwyn gallu symud gwartheg yn rhwydd rhwng gwledydd y DU. Rydym wedi'u trafod â'n Grŵp Cynghori, LIDAG, grwpiau ffocws ffermwyr a detholiad o CPRCs (marchnadoedd, lladd-dai, canolfannau ymgynnull a chasglu).

Disgrifir yr agweddau hyn yn fanwl isod, ac er nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cwestiynau ymgynghori, os hoffech wneud sylwadau ar y pwyntiau a godir, mae croeso ichi wneud hynny yn eich ymateb.

### 1. Rhifo

Mae statws newydd y DU fel trydedd wlad ers gadael yr UE, yn golygu bod yn rhaid rhoi'r rhagddodiad GB cyn y rhifau yn lle UK, y rhagddodiad presennol. Ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth ar dagiau adnabod da byw yn dweud bod yn rhaid i bob tag ddechrau â'r llythrennau UK. Bydd y newidiadau deddfwriaethol sy'n ofynnol yn dilyn yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys newid y cod gwlad a ddefnyddir ar gyfer **gwartheg, moch, defaid** a **geifr** o UK i GB er mwyn i ni allu parhau i fasnachu'n effeithiol â'r UE.

Yn ogystal â newid y rhagddodiad cyn rhifau i GB, mae angen system rhifo newydd ar gyfer gwartheg er mwyn gallu cyflwyno EID Gwartheg yn y DU. Bydd y system newydd, sy'n cydymffurfio â'r safon ISO ddiweddaraf[2], yn creu rhif unigol unigryw ar gyfer lloi newydd-anedig ac yn caniatáu nifer digonol o flynyddoedd cyn i'r daliad ddefnyddio'r 30,000 o rifau sydd ar gael.

Bydd y rhif adnabod yn cael ei rannu'n bedair rhan. Y rhan gyntaf yw'r cod gwlad, GB (neu 826 ar sglodyn yr EID) ar gyfer pob llo newydd ei eni, yn unol â'r newidiadau i reolau masnachu'r UE. Ail ran y rhif yw'r rhif cyfresol, sef sero (0), fel ag ar gyfer defaid. Bydd y rhif cyfresol yn dilyn cod y wlad (GB neu 826) yn y dilyniant rhifo. Trydedd ran y dilyniant rhifo yw rhif y fuches.

Y rhan olaf yw'r ystod rhifau. Ar hyn o bryd, yr ystod ar gyfer defaid yw 00001 i 69999. O dan EID Gwartheg, bydd y rhifau gwartheg yn mynd o 70000 i 99999. Pan fydd ceidwad yn cyrraedd y tag â'r rhif ucha' ar gyfer gwartheg, sef 99999, caiff rif buches newydd a bydd y rhif yn ailgychwyn ar 70000. Ni fydd unrhyw ddigid gwirio fel sy'n ymddangos ar dagiau gwartheg ar hyn o bryd.

Dyma fydd trefn y rhifau ar gyfer lloi newydd eu geni ar y tag:

| G | G | C | B | B | B | B | B | B | A | A | A | A | A |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G | B | 0 | 7 | 6 | 5 | 4 | 2 | 1 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Dyma fydd trefn y rhifau ar y sglodyn yn yr EID:

| G | G | G | C | B | B | B | B | B | B | A | A | A | A | A |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | 2 | 6 | 0 | 7 | 6 | 5 | 4 | 2 | 1 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 |

*(G = Cod y Wlad, C = Rhif Cyfresol, B = Rhif y Fuches a A = Rhif yr Anifail)*

[2] https://www.iso.org/standard/76488.html#

Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i newid trefn y rhifau ar dagiau clust gwartheg a bydd dal modd i'r ceidwad archebu'r tagiau trwy ei gyflenwr arferol.

Dyma fydd manteision cyflwyno system rifo sy'n defnyddio'r rhagddodiad 0 (sero):

- Mae'n cadw'r system bresennol o gael defnyddio'r un rhif buches/diadell mewn daliadau cymysg.
- Gall bara am o leiaf 58 o flynyddoedd mewn 99% o daliadau, felly ni fydd angen rhif buches newydd ar y rhan fwyaf o geidwaid yn eu hoes.
- Gall bridwyr gwartheg gadw rhif eu buches fydd yn lleihau'r baich gweinyddol ar fusnes y ceidwad.

## 2. Manylebau'r Tag

Fel mae'r rheolau ar hyn o bryd, rhaid rhoi tag gwartheg un ar bob clust. Enw'r naill yw'r prif dag, yr ail dag yw enw'r llall. Bydd y drefn hon yn para o dan EID Gwartheg. Bydd pob anifail yn cael rhif adnabod unigryw a fydd yn cael ei roi iddo pan gaiff ei eni ('rhif adnabod unigol'). Caiff y rhif hwn ei brintio ar y ddau dag.

O dan yr EID gwartheg, bydd angen i un tag clust fod â sglodyn electronig gyda rhif adnabod unigol yr anifail arno.  Bydd rhif adnabod unigol yr anifail yn cael ei brintio hefyd yn allanol ar y tag clust. O ran y tag EID, gallwch ddefnyddio tag baner, botwm neu fetel neu dag profi meinwe.

Gallwch roi'r prif dag yn y naill glust neu'r llall ond bydd angen ichi allu ei ddarllen o bell a bydd yn fawr neu'n ganolig ei faint.  Bydd yr un wybodaeth ar yr ail dag ond gall hefyd gynnwys gwybodaeth reoli. Rhaid i'r ail dag gael ei roi yn y glust arall i'r prif dag a gall fod yn dag baner, botwm neu fetel. Ar gyfer lloi fydd yn cael eu geni ar ôl cyflwyno EID gwartheg, rhaid i o leiaf un tag clust fod yn EID. Gall y ceidwad ddewis ai'r prif dag neu'r ail dag fydd hwnnw. Yn ôl ymateb rhanddeiliaid y diwydiant, bydd ceidwaid yn falch o gael cadw'r hyblygrwydd hwnnw.

Mae **Tabl 9** yn crynhoi’r cyfuniadau o dag sy’n bosibl o dan EID Gwartheg

**Tabl 9 – Cyfuniadau tagiau o dan EID Gwartheg**

| ***Math o Dag*** | **EID** | **Nad yw’n EID** |
|---|---|---|
| ***Prif Dag*** | Lliw cadw. Tag baner y gellir ei ddarllen o bell, gyda sglodyn EID | Melyn, tag baner y gellir ei ddarllen o bell |
| ***Ail Dag*** | Lliw cadw. Tag baner, botwm neu fetel, gyda sglodyn EID | Tag baner, botwm neu fetel. Unrhyw liw (*heblaw du*) |

Pa dag bynnag (prif neu ail) sy’n EID, nid oes raid i’r tag arall fod yn EID.

Ar ôl ymgynghori â gwahanol sectorau o'r diwydiant, rydym yn ystyried cadw lliw ar gyfer y tag EID. Bydd y lliw hwn yn orfodol a dyma'r unig opsiwn fydd ar gael wrth brynu tagiau EID gwartheg oddi wrth weithgynhyrchydd tagiau. Ein nod yw sicrhau cysondeb â Lloegr a'r Alban, ond nid ydym wedi penderfynu ar y lliw cadw eto a chaiff ei gyhoeddi pan fydd profion pellach wedi'u cwblhau ar dagiau.

**Ffig 1**. Enghreifftiau o dagiau baner a botwm EID Gwartheg o’r math newydd.




## 3. Elfennau’r Ddyfais Adnabod Electronig (EID)

Gall sglodyn yr EID (y transbonder) fod yn y prif dag neu yn yr ail dag. Rhaid i sglodyn yr EID ddefnyddio technoleg amledd isel (LF) fel y'i defnyddir ar hyn o bryd ar dagiau EID defaid.

## 4. Pasbortau gwartheg

Mae rhif unigol yr anifail wedi'i brintio ar y ddau dag clust ac ar y pasbort. Ar hyn o bryd mae gan bob anifail basbort papur a gyhoeddir ar ôl ei gofrestru; o fewn 27 diwrnod i'w eni, neu pan fo’n dod i'r wlad. Mae'r pasbort yn dyblygu'r data gwartheg a roddir ar y gronfa ddata pan gaiff yr anifail ei gofrestru.

Mae'r pasbort yn aros gyda'r anifail am ei oes, ac ar ôl iddo farw, rhaid dychwelyd y pasbort i'r awdurdod cymwys (BCMS ar hyn o bryd, tan lansio gwasanaethau gwartheg EIDCymru). Rhaid iddo gyd-deithio â'r anifail pan gaiff ei symud i ddaliad arall, megis fferm arall, marchnad neu ladd-dy, a rhaid i'r ceidwad gwblhau'r wybodaeth symud ar y pasbort cyn iddo adael y daliad (symudiad o'r daliad) neu o fewn 36 awr wedi iddo gyrraedd y daliad (symudiad i'r daliad). Ni chaiff gwartheg heb basbort adael eu daliad nac ymuno â'r gadwyn fwyd.

Yn y dyfodol, bydd yr holl wasanaethau y mae'r BCMS yn eu rhoi i geidwaid Cymru yn cael eu darparu gan EIDCymru, gan gynnwys cyhoeddi pasbortau gwartheg.

Bydd unrhyw wartheg sydd newydd eu cofrestru yn cael pasbort Cymreig o'r math newydd a bydd unrhyw anifeiliaid sydd â'u manylion wedi'u colli neu eu newid yn cael pasbort newydd o'r math newydd.

Bydd yn dal gofyn i geidwaid ddychwelyd eu pasbort i EIDCymru (BCMS ar hyn o bryd) cyn cael pasbort newydd NEU o fewn 7 diwrnod i farwolaeth yr anifail.  Rydym wedi gweithio'n agos gyda Llywodraethau'r DU a'r Alban sydd hefyd yn datblygu fersiynau newydd o'u pasbort ar gyfer ceidwaid gwartheg yn Lloegr a'r Alban.

Mae **Tabl 10** yn dangos sut y caiff y pasbortau Cymreig eu cyflwyno yng Nghymru ac yn cysylltu â'r dulliau adnabod a ddefnyddir.

**Tabl 10 – Newidiadau i'r Pasbort**

| **Cyflwyno Pasbort Cymreig** | | | |
|---|---|---|---|
| O ddyddiad ei lansio, bydd EIDCymru yn cyhoeddi ei fersiwn ei hun o'r pasbort gwartheg. | | | |
| | Cofnod yr Anifail ar EIDCymru | Pasbort Papur | Tagiau dwbl confensiynol * |
| Newydd ei eni | ✓ | ✓<br>Pasbort Cymreig newydd | ✓ |
| Buches heb EID | ✓ | ✓<br>Pasbort GB presennol (cyhoeddi pasbort Cymreig pan fydd angen ei newid neu un newydd) | ✓ |

* Ni fydd tagiau EID ar gael tan 2023

## Y manteision i’r diwydiant

Mae’r adran hon yn edrych sut gall y newidiadau sy’n cael eu cynnig ddod â manteision mawr i’r diwydiant da byw.

### 1. Olrhain a rheoli clefydau’n well

Mae dyfeisiau adnabod electronig ac adroddiadau electronig yn cynnig manteision mawr o ran rheoli clefydau. Bydd sganio tagiau EID ar gyfer cofnodi symudiadau'n electronig yn osgoi’r camgymeriadau all ddigwydd wrth ddarllen a chofnodi tagiau â llaw. Bydd y newidiadau sy’n cael eu cynnig i’r drefn rhoi gwybod am symudiadau, a chofnodi CPH cychwyn y daith a CPH pen y daith, yn sicrhau y gellir olrhain pob rhywogaeth yn fwy effeithiol os bydd achos o glefyd. Efallai y bydd y system yn y dyfodol yn gallu cofnodi meddyginiaethau anifeiliaid, gwybodaeth iechyd a data gwarant ar EIDCymru. Bydd yr holl newidiadau hyn yn ein helpu i atal, rheoli a dileu clefydau a diogelu iechyd y cyhoedd yn well.

### 2. Llai o waith papur

Bydd darparu seilwaith electronig yn rhoi cyfleoedd i ddileu rhai o'r prosesau cofnodi ar bapur presennol a'u costau cysylltiedig. Gallai hynny fod yn gyfle i’r diwydiant fod yn fwy effeithiol drwy leihau'r angen am systemau cofnodi niferus ar bapur, gan ganiatáu i adroddiadau symud gael eu gwneud mewn amser real a lleihau dyblygu prosesau gweinyddol ar gyfer ceidwaid a CPRCs.

### 3. Tarddiad

Gallai dyfeisiau adnabod electronig ac adroddiadau electronig ar EIDCymru arwain at fanteision sylweddol i'r diwydiant ffermio, gan gynnwys olrhain tarddiad anifeiliaid yn well, sicrhau ansawdd, cefnogi a meithrin gwerth brand, ac ennyn hyder defnyddwyr.

### 4. Trafod anifeiliaid

Yn ogystal â lleihau’r baich gweinyddol a chamgymeriadau gweinyddol, bydd defnyddio tagiau EID, darlleniadau electronig a throsglwyddo data yn gwneud trafod anifeiliaid yn y dyfodol yn fwy diogel.

Mae lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch pobl wrth drin gwartheg yn hynod hynod bwysig. Rydyn ni am i’r bobl sy’n trafod da byw fod yn ddiogel a bod yr holl waith tagio’n cael ei wneud â’r seilwaith, offer a mesurau diogelwch cywir.

### 5. Rheoli’r fferm

Bydd gallu cael at ddata rheoli’n gyflym drwy ddefnyddio dyfeisiau adnabod electronig a darllenwyr dyfeisiau, ap EIDCymru a phecynnau meddalwedd fferm, yn helpu ffermwyr â’u penderfyniadau rheoli. Gyda'i gilydd, gallent leihau'r amser a dreulir ar dasgau hwsmona fel monitro pwysau a all ddylanwadu ar benderfyniadau i werthu, yr angen am borthiant a nodi a thrin problemau iechyd anifeiliaid.

## Ystyriaethau wrth ei roi ar waith

### 1. Symudiadau dros ffiniau

Mae gweinidogion ym mhob un o weinyddiaethau'r DU yn cydnabod pwysigrwydd masnach drawsffiniol ac wedi ymrwymo i gydweithio i wneud eu systemau'n gydnaws. Rydyn ni’n gweithio i sicrhau ein bod yn gallu olrhain yn llawn, rheoli clefydau'n well a throi’n rhwydd i system electronig ledled y DU. Bydd gallu cyfnewid data'n hwylus yn egwyddor graidd ar gyfer systemau amlrywogaeth yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

### 2. Cysylltu â rhanddeiliaid

Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r diwydiant drwy LIDAG a grwpiau ffocws y diwydiant a ffermwyr i weithredu'r system amlrywogaeth newydd yn effeithlon a newid y drefn cofnodi symudiadau. Mae LIDAG wedi cyfrannu at y cynigion ymgynghori hyn, a byddwn yn dal ati i weithio'n agos gyda'r grŵp i drafod y canlyniadau a gweithredu unrhyw newidiadau deddfwriaethol.

Bydd diweddariadau rheolaidd yn ymddangos yn Gwlad a byddwn yn ymgynghori â chynrychiolwyr LIDAG a chynrychiolwyr eraill o'r diwydiant cyn cyhoeddi canllawiau i gefnogi'r broses o newid i gofnodi symudiadau symud a chofrestru da byw ar EIDCymru a gweithredu EID Gwartheg.

### 3. Cost

Rydym yn cydnabod ei bod yn debygol y bydd tagiau EID yn costio mwy na thagiau confensiynol nad ydynt yn electronig. Nes y gall holl systemau olrhain Prydain Fawr ymgorffori system rifo EID gwartheg, ni fydd gweithgynhyrchwyr tagiau yn gallu cynhyrchu tagiau EID swyddogol na chadarnhau unrhyw gostau'n fanwl. Mae tagiau rheoli EID ar hyn o bryd ryw £1 yn ddrutach na thagiau confensiynol. Bydd gweithredu EID gwartheg yn golygu rhoi tag EID ar bob llo newydd ei eni.

Efallai y bydd angen uwchraddio meddalwedd a chaledwedd rheoli hefyd, gan gynnwys hyfforddiant TG a seilwaith, megis offer trin, ar gyfer ffermydd a CPRCs.

Ein nod yw newid y drefn cofrestru a chofnodi symudiadau da byw trwy EIDCymru a chyflwyno mân newidiadau a fydd gobeithio’n symleiddio’r broses cofnodi i geidwaid. Bydd pecyn cymorth hyfforddi i geidwaid yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno drwy raglen Cyswllt Ffermio. Bydd EIDCymru yn parhau i helpu CPRCs.

### 4. Gorfodi

Ein bwriad yw i Awdurdodau Lleol gadw eu rôl orfodi bresennol. Bydd Arolygiaeth Wledig Cymru (RIW) yn parhau i gynnal archwiliadau statudol ar ffermydd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheolau adnabod, rhoi gwybod am symudiadau a chofnodi.

## Y weledigaeth tymor hir ar gyfer adnabod da byw a rhoi gwybod am eu symudiadau


Credwn y bydd system electronig yn gwella’r drefn ar gyfer olrhain ein holl dda byw a bydd cyflwyno EID Gwartheg yn ddull mwy diogel a mwy effeithlon o dagio gwartheg.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn am y ffordd orau o wneud hyn yn y ffordd fwyaf didrafferth i’r diwydiant.

Bydd EIDCymru yn cael ei ddatblygu yn unol â chanlyniadau'r ymgynghoriad hwn, gyda’r nod o allu adnabod da byw a newid y drefn cofnodi symudiadau. Fodd bynnag, bydd rhai canlyniadau'n parhau'n wirfoddol a mater i’r ceidwad yw a fydd am fanteisio ar bopeth y gall EIDCymru ei gynnig. Ein huchelgais yw galluogi'r canlynol ar gyfer adnabod da byw a chofnodi symudiadau o fewn yr amserlen y byddwn yn cytuno arni.

- ✓ Rhoi manylion y symudiad cyfan er mwyn gallu olrhain yr holl wartheg am eu hoes
- ✓ Rhoi gwybod am symudiad cyn i’r anifail adael y daliad er mwyn gallu olrhain gwartheg mewn amser real
- ✓ Rhoi gwybod am symudiad cyn i’r anifail adael y daliad i CPRCs wybod pa stoc sydd ar fin cyrraedd
- ✓ Cofrestrau buches a diadell electronig ar gael i bob ceidwad trwy’r cyfrif EIDCymru ar-lein
- ✓ Cwtogi’r amser cofrestru lloi bîff o 30 niwrnod i 27 niwrnod i gysoni amserau
- ✓ Dim cofnodion a chofrestrau papur
- ✓ Manylion teithiau’n cael eu cadw’n ganolog at ddiben rheoli clefydau
- ✓ Proses benodol ar gyfer symudiadau i sioeau rhag gorfod eu cofnodi fwy nag unwaith
- ✓ Rhoi dau dag ar loi newydd eu geni, gydag o leiaf un o’r rheini’n dag EID
- ✓ Cyflwyno pasbortau electronig ar gyfer gwartheg
- ✓ Bydd CPRCs yn gallu darllen tagiau EID defaid a gwartheg, cofnodi symudiadau ar ddiwrnod y gwerthu er mwyn gallu cofnodi symudiadau pob math o dda byw mewn amser real yn y pen draw.
- ✓ Pob ceidwad da byw i ddefnyddio Rheoli Fy CPH.

## Camau Nesaf



**Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn ichi am eich barn am y cynigion i'r drefn adnabod, cofrestru a rhoi gwybod am symudiadau da byw yng Nghymru**

## Ffurflen Ymateb yr Ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| **Enw** | |
| **Corff (os yn gymwys)** | |
| **E-bost/Rhif Ffôn** | |
| **Cyfeiriad** | |

| **Cwestiynau'r Ymgynghoriad** | |
|---|---|
| Adran Un – Rhaid rhoi gwybod am y symudiad cyfan | |
| 1.1 | Beth yw'ch barn am gyflwyno trefn cofnodi symudiad cyfan ar gyfer gwartheg? |
| 1.2 | A fydd adegau pan na fydd modd cofnodi CPH pen y daith? Os bydd, beth allwch chi ei wneud i allu rhoi'r wybodaeth? |

| Cwestiynau'r Ymgynghoriad | |
|---|---|
| 1.3 | A oes gennych rywbeth arall i'w ddweud am hyn? |
| Adran Dau – Rhaid cofnodi manylion taith pob rhywogaeth | |
| 2.1 | Ydych chi o blaid casglu manylion y cludwr a'r cludiant ar gyfer symudiad pob rhywogaeth? Rhowch eich rhesymau am eich barn. |
| 2.2 | A fydd adegau pan na fydd modd rhoi holl fanylion y daith? Rhowch enghreifftiau. |
| 2.3 | A oes gennych rywbeth arall i'w ddweud am hyn? |

| Cwestiynau’r Ymgynghoriad | |
|---|---|
| Adran Tri – Gorfodi Canolfannau Cofnodi Canolog (CPRC) i newid eu hamserau cofnodi | |
| 3.1 | Ydych chi’n cytuno â’r uchelgais i orfodi CPRC i gofnodi symudiadau yr un diwrnod? Rhowch eich rhesymau am hyn? |
| 3.2 | A oes gennych rywbeth arall i’w ddweud am hyn? |
| Adran Pedwar – Rhoi gwybod am symudiadau pob rhywogaeth ymlaen llaw (gwirfoddol) | |
| 4.1 | A oes adegau pan fydd dal angen y pasbort papur bresennol? |
| 4.2 | A oes adegau pan fydd dal angen yr AML1 bapur bresennol? |

| Cwestiynau'r Ymgynghoriad | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.3 | A fyddech chi'n croesawu mwy o wasanaethau digidol? Beth sydd ei angen arnoch ichi fedru gwneud hyn? E.e. hyfforddiant. | | | |
| 4.4. | Sut ydych chi'n rhoi gwybod am symudiadau ar hyn o bryd a pham? | | | |
| | Gwartheg | Ar-lein ☐ | Papur ☐ | Ffôn ☐ |
| | Moch | Ar-lein ☐ | Testun ☐ | Ffôn ☐ |
| | Defaid | Ar-lein ☐ | Papur ☐ | |
| | Geifr | Ar-lein ☐ | Papur ☐ | |
| | Ceirw | Ar-lein ☐ | Papur ☐ | |
| | Pam? | | | |
| 4.5 | A oes gennych rywbeth arall i'w ddweud am hyn? | | | |

| **Cwestiynau'r Ymgynghoriad** | |
|---|---|
| Adran Pump – Rhoi gwybod am symudiadau pob rhywogaeth yn electronig (gwirfoddol) | |
| 5.1 | A fyddech chi' n ystyried defnyddio EIDCymru fel cofrestr electronig yn lle'ch cofrestr buches/diadell bapur? Beth yw'ch rhesymau am hyn? |
| 5.2 | Ydych chi'n cytuno â chyflwyno adroddiadau di-bapur ar gyfer pob math o dda byw? Beth yw'ch rhesymau am eich barn? |
| 5.3 | A oes rhesymau pam y byddech am barhau i gofrestru genedigaethau a marwolaethau a chofnodi symudiadau ar bapur? |

| Cwestiynau'r Ymgynghoriad | |
|---|---|
| 5.4 | Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gwtogi'r amser i roi gwybod am enedigaethau lloi bîff i 27 niwrnod? Beth yw'ch rhesymau? |
| 5.5 | A oes gennych rywbeth arall i'w ddweud am hyn? |
| **Adran Chwech – Newidiadau i'r drefn symud anifeiliaid i sioeau - gwirfoddol** | |
| 6.1 | Beth yw'ch barn am ein cynnig i ganiatáu i arddangoswyr mewn sioeau greu symudiadau cylchol? |
| 6.2 | A oes gennych rywbeth arall i'w ddweud am hyn? |

| Cwestiynau'r Ymgynghoriad | |
|---|---|
| Adran Saith – Y newidiadau a gynigir ar gyfer adnabod ac olrhain moch | |
| 7.1 | Beth yw'ch barn am ein huchelgais i gofrestru daliadau bob blwyddyn a chynnal stocrestr flynyddol o'r moch, a gwneud hynny'n orfodol? |
| 7,2 | Beth yw'ch barn am roi tagiau electronig ar foch pan fyddant yn gadael eu daliad geni? Oes angen ei wneud yn orfodol ar gyfer stoc fagu (hesbinnod, hychod a baeddod)? |
| 7.3 | Beth yw manteision neu rwystrau posibl rhoi marciau adnabod ar foch, gan gynnwys marc y cenfaint a'r rhif adnabod unigryw. |
| 7.4. | A oes gennych rywbeth arall i'w ddweud am hyn? |

| Cwestiynau Eraill | |
|---|---|
| 8 | Bydd EIDCymru yn wasanaeth cwbl ddwyieithog. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai estyn EIDCymru a chyflwyno EIDCymru yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau hynny? Sut mae cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol? |
| 9 | Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y cynigion polisi a gynigir fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| 10 | Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi. |

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch y blwch: ☐

**Atodiad 1**

| Rhestr o Ymgynghoreion | |
|---|---|
| ADAS | Cymdeithas y Ffermwyr Tenant |
| ALIDMA | Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) |
| Allflex Europe UK Ltd | Cyngor Lles Anifeiliaid Anwes (CAWC) |
| Anglo Beef Processors (ABP) | Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf |
| Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) | Dairy UK |
| Asiantaeth Safonau Bwyd | Datamars UK |
| Caisley Tags | Dunbia Ltd |
| Canolfan Datblygu Llaeth Cymru | Farm Assured Welsh Livestock (FAWL) |
| Canolfan Gwyddor Filfeddygol Cymru | Farmers Guardian |
| CFfI Cymru | Farmers Weekly |
| Cig Oen Caron | Ffermydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| Cofnodion Llaeth Cenedlaethol (NMR) | Future Farmers of Wales |
| Coleg Amaethyddol Glynllifon | Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru |
| Coleg Brenhinol y Milfeddygon | Gwaredu BVD |
| Coleg Cambria - Llysfasi | Heddlu De Cymru |
| Coleg Gwent | Heddlu Gogledd Cymru |
| Coleg Llandrillo | Hybu Cig Cymru (HCC)-Meat Promotion Wales |
| Coleg Meirion-Dwyfor | IBERS |
| Coleg Pen-y-bont ar Ogwr | International Meat Trade Association (IMTA) |
| Coleg Sir Gâr | Kepak Group |
| Compassion in World Farming (CIWF) | LANTRA |
| Consortiwm Manwerthu Cymru | Meadow Quality Ltd |
| Conwy Valley Meats | National Craft Butchers |
| Cwmni Stoc Drig Cenedlaethol (NFSCo) | National Sheep Association (NSA) |
| Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru | NPTC Group of Colleges |
| Cymdeithas Arwerthwyr Da Byw | Quality Welsh Food Certification (QWFC) |
| Cymdeithas Cig Eidion Genedlaethol | Penaethiaid Safonau Masnach Cymru |
| Cymdeithas Cyflenwyr Cig Annibynnol (AIMS) | Prifysgol Aberystwyth |
| Cymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid (RSPCA) | Pwyllgor Lles Anifeiliaid Fferm (FAWC) |
| Cymdeithas Frenhinol Ffermwyr Godro Prydain | Randall Parker Foods Ltd |
| Cymdeithas Glaswelltir Prydain | Red Tractor Assurance |
| Cymdeithas Milfeddygon Gwartheg Prydain (BCVA) | Shearwell Data Ltd |
| Cymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA) | The Farmer |
| Cymdeithas Proseswyr Cig Prydain (BMPA) | Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) |
| Cymdeithas Sefydliadau Sioeau ac Amaethyddol (ASAO) | Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (NFU) |
| Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA) | Veterinary Public Health Association |
| Cymdeithas y Cludwyr Ffyrdd (RHA) | Ystâd Rhug |

**Atodiad 2 – Rhestr termau**

| | |
|---|---|
| Bolws | Dyfais adnabod geramig electronig sy'n cael ei rhoi trwy'r geg a'i gadael yn y stumog. |
| Canolfannau Cofnodi Canolog (CPRCs) | Safle cymeradwy (h.y. marchnad, lladd-dy, canolfan gasglu neu gynnull) sy'n darparu gwasanaeth i ddarllen rhif adnabod unigol yr anifeiliaid wrth iddynt gyrraedd a rhoi rhestr o rifau tagiau i'r perchennog/ceidwad. |
| Cod adnabod unigryw | Rhif llawn yr EID sy'n cynnwys 826 ac yna farc y fuches a rhif yr anifail. |
| Cofrestr y Fuches | Cofnod o enedigaethau neu ddyfais adnabod gyntaf, marwolaethau, tagiau cyfnewid, tagiau newydd, symudiadau'r anifeiliad i ac o'r daliad. Cofrestr y daliad yn enw arall arno. |
| CPH (Rhif y Daliad) | Rhif unigryw sy'n cael ei roi gan Taliadau Gwledig Cymru sy'n nodi lleoliad eich daliad(au). |
| Da Byw | Defaid, geifr, gwartheg a moch |
| Daliad – gweler hefyd CPH | Yr holl dir â rhif CPH unigol dan eich rheolaeth chi yn unig lle caiff defaid a/neu eifr eu cadw. |
| Dyfais Adnabod | Tag clust sy'n rhoi rhif adnabod swyddogol yr anifail. |
| e-Basbort | Pasbort electronig i gymryd lle'r hen un |
| EID | Dyfaid Adnabod Eeldectronig |
| EID Gwartheg | Dyfais Adnabod Electronig ar gyfer Gwartheg |
| Grŵp Cynghori ar Adnabod Da Byw (LIDAG) | Grŵp o gynrychiolwyr y diwydiant ffermio sy'n ein cynghori ni, Llywodraeth Cymru, ar adnabod da byw, CPH, cronfeydd data symudiadau a'r gwaharddiad symud 6 niwrnod. Mae cynrychiolwyr yn cynnwys undebau'r ffermwyr, y sectorau defaid, godro, lladd-dai a chig, awdurdodau lleol a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion. |
| Gweinyddiaethau'r DU | Llywodraethau Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. |
| LUIS | System gyfrifiadurol ganolog sy'n neilltuo rhifau swyddogol ar gyfer adnabod da byw. |
| Pasbort | Caiff yr holl wartheg sydd wedi'u cofrestru ar y System Olrhain Gwartheg (CTS) y ddogfen adnabod hon. |
| Safon ISO | Safon yn ymwneud â thransbonder yr EID a phrotocolau darllen yr EID. |
| Tag confensiynol (nad yw'n EID) | Tag heb dransbonder (sglodyn). |
| Tag EID | Tag â thransbonder (sglodyn) ynddo |
| Transbonder | Sglodyn electronig o fewn y tag. |
| WYSIWYG | "Yr hyn a welwch chi yw'r hyn a gewch". Mae'r rhif ar y transbonder yn cyfateb i'r rhif ar y tag. |

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad (dalen barhau)

| Rhif yr Adran a'r Cwestiwn: | |
|---|---|
| | |

| Rhif yr Adran a’r Cwestiwn: | |
|---|---|
| | |

| Rhif yr Adran a'r Cwestiwn: | |
|---|---|
| | |

| Rhif yr Adran a'r Cwestiwn: | |
|---|---|
| | |